

Adfer maint a siâp y fron ar ôl llawdriniaeth canser y fron drwy chwistrellu braster y claf ei hun

*Mae arweiniad
Techlechydd NICE
yn rhoi cyngor i'r
GIG ar pryd a sut y
gellir defnyddio
triniaethau newydd
mewn arfer clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir chwistrellu braster y claf ei hun yn y GIG i adfer maint a siâp y fron ar ôl llawdriniaeth canser y fron. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros lechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae'r arweiniad Techlechydd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Gall ymyriad olygu prawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbytai) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n cynnig gwerth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn gan fod y driniaeth yn eithaf newydd. Golyga hyn nad oes llawer o wybodaeth ar gael hyd yma am ba mor dda y mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y ddogfen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio adfer maint a siâp y fron ar ôl llawdriniaeth canser y fron na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi ar y rhain. Mae'r ddogfen yn cynnwys rhai cwestiynau efallai y byddwch am eu gofyn i'ch meddyg

i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 8.

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Gellir cynnig y driniaeth hon yn rheolaidd fel opsiwn triniaeth i adfer maint a siâp y fron ar ôl llawdriniaeth canser y fron, cyn belled â bod meddygon yn siŵr:

- bod y claf yn deall beth mae'n ei olygu a'i fod yn cytuno i gael y driniaeth, ac
- y caiff canlyniadau'r driniaeth eu monitro.

Ceir pryderon y gallai'r driniaeth hon mewn egwyddor effeithio ar ganser y fron yn dychwelyd yn yr hirdymor, ond ni chyhoeddwyd unrhyw dystiolaeth o hyn. Felly, mae NICE wedi gofyn am gasglu rhagor o wybodaeth hirdymor am y driniaeth hon.

Dylai tîm o weithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd â phrofiad o reoli canser y fron benderfynu pa gleifion ddylai gael cynnig y driniaeth hon. Dim ond llawfeddygon â sgil a hyfforddiant penodol yn y driniaeth hon ddylai ei chyflawni.

Sylwadau eraill gan NICE

Ceir rhai pryderon y gallai'r driniaeth ymyrryd â thechnegau delweddu a ddefnyddir i archwilio am ganser. Fodd bynnag, ni ddylai hon fod yn broblem neilltuol o ystyried y technegau sydd ar gael ar hyn o bryd, ac y caiff delweddau eu harchwilio gan arbenigwyr.

*Efallai nad hon yw'r
unig driniaeth bosibl
ar gyfer adfer maint
a siâp y fron ar ôl
canser y fron.
Dylai eich tîm gofal
iechyd siarad â chi
ynghylch
p'un a yw'n addas i
chi a pha
driniaethau eraill
sydd ar gael.*

Adfer maint a siâp y fron ar ôl llawdriniaeth canser y fron drwy chwistrellu braster y claf ei hun

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw 'ailffurfio'r fron drwy ddefnyddio lipofodelu ar ôl triniaeth ar gyfer canser y fron'.

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

Gallai llawdriniaeth ar gyfer canser y fron gynnwys tynnu'r fron gyfan (mastectomi) neu ran o'r fron (toriad lleol neu lwmpsectomi). Gellir cyflawni triniaeth ailffurfio'r fron naill yr un pryd â llawdriniaeth canser y fron neu ar ôl hynny. Gall hyn gynnwys mewnbhaniadau artiffisial, neu feinwe o ran arall o'r corff, neu gyfuniad o'r ddau.

Mae lipofodelu'n defnyddio celloedd braster y claf ei hun i adfer maint y frest, neu i siapio rhannau o'r frest, ar ôl llawdriniaeth. Gellir cyflawni'r driniaeth ar ei phen ei hun neu'n ogystal â thechnegau eraill ar gyfer ailffurfio'r frest. Nod y driniaeth yw gwella maint a siâp y frest, heb y canlyniadau a'r cymhlethdodau y gellid eu cael o ganlyniad i dechnegau eraill weithiau. Mae'n gyffredin bod rhywfaint o'r braster a gaiff ei chwistrellu'n cael ei ail amsugno yn ystod y chwe mis cyntaf.

Gyda'r claf o dan anesthetig cyffredinol neu lleol, cymerir braster o'r bol, yr ochr neu ran allanol y goes drwy ddefnyddio chwistrell. Caiff y braster ei droelli a'i olchi fel arfer i dynnu gwaed a chelloedd marw cyn cael ei chwistrellu i mewn i'r fron. Fel arfer bydd angen rhwng dwy a phedair sesiwn. Gall y driniaeth ddechrau ar yr un pryd â llawdriniaeth canser y fron neu'n hwyrach.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae NICE wedi dweud bod y driniaeth hon yn ddigon diogel a'i bod yn gweithio'n ddigon da i'w defnyddio yn y GIG. Os yw eich meddyg yn credu bod hon yn driniaeth addas i chi, dylai sicrhau eich bod yn deall y manteision a'r risgiau o hyd cyn gofyn i chi gytuno i gael y driniaeth.

Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai'r driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

*Gallech ddewis
cael y driniaeth
hon, cael triniaeth
wahanol, neu
beidio â chael
triniaeth
o gwbl.*

Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Isod ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar saith astudiaeth o'r driniaeth hon.

Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Mewn astudiaeth yn cynnwys 734 o driniaethau (cyfanswm o 880 o driniaethau), aseswyd y canlyniadau drwy archwiliad clinigol, ffotograffau a barn y claf. Mewns hanner y triniaethau, disgrifiwyd y canlyniadau fel 'da iawn'. Mewn 40% o'r triniaethau roedd y canlyniadau'n 'dda', ac yn 'eithaf da' mewn 10%.

Mewn astudiaeth o 820 o gleifion a gafodd y driniaeth, gan gynnwys 381 a oedd ag anghymesuredd ar ôl mastectomi ac ailffurfio'r fron, cafodd y rhan fwyaf o gleifion 'welliant sylweddol ym maint a/neu siâp ei bron'. Roedd bronau 34 o gleifion yn parhau yn anwastad eu siâp neu eu maint yn yr hirdymor.

Nododd astudiaeth o 69 o gleifion (74 o fronau) hefyd y cafwyd gwelliant ar ôl y driniaeth. Disgrifiwyd hwn fel 'da i dda iawn' mewn 64 o fronau a 'gweddol' mewn 10 bron (aseswyd gan ddau lawfeddyg annibynnol o ffotograffau).

Cymharodd un astudiaeth o 61 o gleifion (62 o fronau) y canlyniadau o lipofodelu â thriniaeth safonol. Arweiniodd y ddwy driniaeth at welliant, ond roedd hwn yn llawer gwell ymhlith cleifion a gafodd eu trin â lipofodelu.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr mai ffactorau llwyddiant allweddol oedd newid ym maint a gwedd y fron, ansawdd bywyd a delwedd y corff.

Risgiau a phroblemau posibl

Yn yr astudiaeth yn cynnwys 734 o driniaethau (cyfanswm o 880 o driniaethau), ar ôl 10 mlynedd nid oedd y risg bod canser y fron yn ailddychwelyd yn lleol yn fwy. Mewn astudiaeth o 137 o gleifion a gafodd fastectomi radical wedi'i addasu (lle y cafodd holl gyhyrau wal y frest eu tynnu, yn ogystal â'r fron gyfan), ni chafodd bron ddim un ohonynt ganser pellach yn y fron, ac nid oedd y canser wedi ymledu i rannau eraill o'r corff o fewn pum mlynedd.

Yn yr astudiaeth o 880 o driniaethau, cafodd un claf niwmothoracs (aer yng ngheudod y frest) yn ystod y driniaeth, a gafodd ei drin drwy osod draen. Achosodd chwe thriniaeth haint yn ardal y fron, ac un driniaeth haint yn y man lle y tynnwyd y celloedd braster. Cafodd pob un o'r heintiau eu trin yn llwyddiannus.

Yn yr un astudiaeth, cafwyd madredd yn y braster (neu niwed i feinwe frasterog y frest) mewn 3% o driniaethau.

Yn yr astudiaeth o 69 o gleifion, nodwyd systiau brasterog mewn pump allan o 74 o fronnau ar ôl tri mis. Nodwyd systiau brasterog mewn astudiaeth o 37 o gleifion hefyd, mewn dwy allan o 43 o fronnau.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr fod y problemau yn cynnwys systiau, cleisio, y fron yn caledu, y fron neu'r man lle y tynnwyd y celloedd yn anffurfiol, y braster yn cael ei ail-amsugno i mewn i'r corff, a chanfod annormaleddau mewn archwiliad clinigol neu famograffi. Mewn egwyddor, gellid cael cynnydd yng nghyfradd canser y fron yn dychwelyd, a braster yn blocio rhydweli.

Rhagor o wybodaeth am ganser y fron

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi gwybodaeth a chymorth pellach i chi hefyd. I gael manylion canllawiau NICE ar ganser y fron, ewch i'n gwefan yn www.nice.org.uk

NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ar atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn holi barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechydd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance

Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â 'Ailffurfio'r fron drwy ddefnyddio lipofodelu ar ôl triniaeth ar gyfer canser y fron'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael ar <http://guidance.nice.org.uk/HTG280>

Rydym yn annog sefydliadau'r sector gwirfoddol a sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.

National Institute for Health and Clinical Excellence

Level 1A, City Tower, Piccadilly Plaza, Manchester M1 4BT; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8570-8

N2718 January 2012

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2012. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.